CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 13 MAWRTH 2008 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D H Roberts (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch. H M Davies (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs. Liza Brough
	Mr. Robert Griffiths

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 7 CHWEFROR 2008

2.1 Cytunwyd â'r rhain.

3. MATERION YN CODI

Trefniadau Archwilio

3.1 Hysbysodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf ond ni chafwyd ateb hyd yn hyn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn paratoi llythyr i'r Cadeirydd ei anfon at Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfarfod Rhyng-Gomisiynol

3.2 Adroddwyd bod y cyfarfod Rhyng-Gomisiynol wedi bod yn llwyddiant. Dymuna'r Cadeirydd estyn ei diolchiadau i'r Ysgrifenyddiaeth am drefnu'r digwyddiad.

Wrecsam

3.3 Nodwyd nad oedd ateb wedi'i dderbyn oddi wrth y Gweinidog.

Caerffili

3.4 Adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth yn parhau i ddisgwyl am ymatebion oddi wrth fwyafrif y sefydliadau hynny y cysylltwyd â hwy ynghylch y newidiadau i'r ffiniau cymunedol. Gobeithiwyd cael yr holl ymatebion cyn cyfarfod nesaf y Comisiwn.

Dyffryn Clydach

3.5 Hysbysodd yr Ysgrifennydd y Pwyllgor ei fod wedi ysgrifennu at Glerc Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf ond ni fu unrhyw ohebiaeth bellach.

Y Canllaw Arddull

3.6 Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cyflwyno newidiadau print i'w llythyron, dogfennau, templedi a'r wefan. Roedd unrhyw ddeunydd argraffedig neu wyliadwy a gyhoeddir gan y Comisiwn nawr yn ffont Arial. Cyflwynwyd dewis ar y wefan hefyd i alluogi defnyddwyr newid maint y ffont. **Cytunwyd** y byddai datganiad i'r perwyl hwn yn cael ei gynnwys ar y wefan.

Arolwg Cymunedol Môn

3.7 Adroddwyd bod pro-forma, a baratowyd gan y Dirprwy Gadeirydd wedi'i hanfon at Gyfieithwyr er mwyn iddynt ddiwygio adroddiad arolwg Cymunedol Môn.

4. AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL CONWY – ADRODDIAD DRAFFT

4.1 Adroddwyd nad oedd y ffigurau etholiadol y gofynnwyd amdanynt oddi wrth y Cyngor wedi'u derbyn eto oherwydd absenoldeb yr aelod priodol o staff. Trafododd y Comisiwn y lefel briodol o gynrychiolaeth ar gyfer Cymunedau cyfunedig Dolgarrog a Threfriw. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig na fyddai'r Cymunedau cyfunedig yn cael eu rhannu'n wardiau, ac y byddai 10 cynghorydd yn cynrychioli'r gymuned. **Cytunwyd hefyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu yn anffurfiol at y rhai hynny y maent am eu barn am y cynigion. **Cytunwyd** y dylai'r llythyr gynnwys pryderon y Comisiwn ynghylch gorgynrychioli mewn ardal ddaearyddol fechan a gwasgariad yr etholwyr.

5. AROLWG O'R GOFRESTR RISGIAU

5.1 Nododd y Comisiwn y fersiwn ddiweddaraf o'r gofrestr risgiau a gytunwyd arni yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- … Dylid ailddosbarthu Risg D yn 3,4
- … Dylid ailddosbarthu Risg G yn 1,2

5.2 Ynghylch risg A, adroddodd yr Ysgrifennydd nad oedd wedi derbyn ateb i'w neges e-bost a anfonwyd at Emyr Roberts ynglŷn â'r brys o ran trawsffurfio system TG y Comisiwn. Roedd y sefyllfa hon wedi dwysáu gan fod aelod staff newydd wedi ymuno â'r Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn aros tan y cyfarfod nesaf ac os na fyddai ymateb wedi'i dderbyn erbyn hynny, yna byddai Risg A yn cael ei huwchraddio i 4,4. **Cytunwyd** y byddai Risg F yn cael ei hystyried yn ystod arolwg o'r gofrestr risgiau newydd.

6. ETHOLIADAU I AWDURDODAU LLEOL CYMRU

6.1 Ystyriodd y Comisiynwyr arweiniad LlCC. **Cytunwyd** i geisio cyngor cyfreithiol ynghylch a allai'r Comisiwn gychwyn arolwg yn ystod y cyfnod cyn etholiad. Cytunwyd, yn amodol ar gyngor cyfreithiol, pe bai arolygon yn cael eu cychwyn, byddai pedair wythnos yn cael eu hychwanegu at y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

7. AROLWG CYFNODOL

7.1 Nododd y Comisiwn y datblygiad hwn.

8. UNRHYW FUSNES ARALL

8.1.1 Nododd y Comisiwn arweiniad y llythyr cylch gwaith CNLC a gyhoeddwyd gan LlCC. Pan fyddai'r llythyr cylch gwaith wedi'i gytuno'n derfynol, cytunodd y Comisiwn y byddent yn mabwysiadu'r egwyddorion a gynhwysir yn y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy.

8.2 Ystyriodd y Comisiwn y cytundeb ar y cyd ar Dlodi Plant. Cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn ystyried yr amcanion lle y bo'n berthnasol wrth ymgymryd â'u dyletswyddau.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

9.1 Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Iau 24 Ebrill 2008 am 10:45
Dydd Iau 12 Mehefin 2008 am 10:45